

MEWNDIWBIO PAN FYDDWCH CHI'N EFFRO: CANLLAW I GLEIFION



Beth yw ystyr mewndiwbio?

Pan fyddwch chi'n cael anaesthetig cyffredinol, bydd angen i'r anaesthetegydd ddefnyddio dyfais anadlu i wneud yn siŵr fod ocsigen yn parhau i fynd i mewn i'ch corff. Bydd yr anaesthetegydd yn pasio tiwb anadlu i mewn i'ch ceg (neu weithiau trwy eich trwyn) i lawr rhwng tannau eich llais (*vocal cords*) i mewn i'ch pibell wynt (*trachea*). Enw'r broses hon yw **mewndiwbio**. Bydd yr anaesthetegydd yn defnyddio offeryn meddygol o'r enw laryngosgop i'w helpu i osod y tiwb hwn drwy dannau'r llais.

Beth yw ystyr mewndiwbio pan fyddwch chi'n effro?

Fel arfer, bydd y ddyfais anadlu (tiwb anadlu) yn cael ei gosod ar ôl i'r claf gael cyffuriau anaesthetig, fel na fydd yn ymwybodol o'r broses. Weithiau, bydd hi'n fwy diogel gosod y tiwb anadlu cyn rhoi'r cyffuriau anaesthetig i'r claf a phan fydd y claf yn dal i fod 'yn effro'. Mae dau fath o offeryn yn cael eu defnyddio wrth **fewndiwbio pan fyddwch chi'n effro**, sef broncosgop hyblyg a laryngosgop fideo.

Beth yw broncosgop hyblyg?

Tiwb tenau gyda chamera a golau ar ei ben yw broncosgop hyblyg, ac mae'n gallu symud i wahanol gyfeiriadau. Mae'r mathau mwyaf cyfarwydd o endosgop yn cael eu defnyddio i edrych ar rannau mewnol y corff, fel y stumog neu'r colon. Mae'r rhai sy'n cael eu defnyddio i reoli'r llwybr anadlu'n deneuach o lawer. Ar gyfer **mewndiwbio pan fyddwch chi'n effro**, mae'n bosib y bydd broncosgop hyblyg yn cael ei ddefnyddio i fewnosod y tiwb anadlu drwy'r trwyn neu drwy'r geg.

Beth yw laryngosgop fideo?

Dyfais grom a mwy llydan yw laryngosgop, sy'n mynd i mewn i'r geg dros y tafod. Bydd yr anaesthetegydd yn defnyddio hwn i edrych yn eich ceg a gweld tannau eich llais. Mae camera ar ben laryngosgop fideo, a bydd yr anaesthetegydd yn gallu gweld y delweddau o dannau'r llais ar sgrin wrth iddo basio'r tiwb anadlu i mewn i'r trachea. Yn ystod y broses o **fewndiwbio pan fyddwch chi'n effro**, bydd laryngosgop fideo'n cael ei ddefnyddio i osod y tiwb anadlu drwy'r geg.

MEWNDIWBIO PAN FYDDWCH CHI'N EFFRO: CANLLAW I GLEIFION



Beth yw'r rhesymau dros fewndiwbio pan fyddwch chi'n effro?

Bydd yr anaesthetegydd yn penderfynu beth yw'r ffordd fwyaf diogel o **fewndiwbio**. I rai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth neu radiotherapi ar y pen a'r gwddf yn ddiweddar, neu os oes chwyddo mawr ar wyneb neu wddf cleifion, neu i gleifion sy'n methu ag agor eu ceg ryw lawer, mae'n bosib mai mewndiwbio pan fyddan nhw'n effro fydd y dull mwyaf diogel o roi'r anaesthetig iddyn nhw. Bydd yr anaesthetegydd yn trafod ei benderfyniad i wneud hyn â'r claf, a bydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r archwiliad.

Beth i'w ddisgwyl yn ystod y broses o fewndiwbio pan fyddwch chi'n effro?

Bydd yr anaesthetegydd a'r tîm meddygol yn gofalu amdanoch yn ystod y mewndiwbio ac wrth i chi gael yr anaesthetig cyffredinol, a byddan nhw'n gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda chi ynglŷn â'r archwiliad. Mae'n arferol monitro eich pwls, eich pwysedd gwaed a'ch lefelau o ocsigen yn ystod anaesthesia, a bydd y tîm hefyd yn rhoi ocsigen i chi. Bydd angen gosod canwla (tiwb plastig bach iawn) i mewn i wythïen. Bydd rhai cleifion yn gallu cael moddion tawelu trwy'r canwla i'w helpu i ymlacio cyn y mewndiwbio. Bydd y canwla hefyd yn cael ei ddefnyddio i roi'r cyffuriau anaesthetig i gleifion ar ôl y mewndiwbio. Nid pob claf sy'n cael y moddion tawelu, a bydd yr anaesthetegydd yn penderfynu beth yw'r opsiwn mwyaf diogel.

Bydd angen i'r anaesthetegydd wneud yn siŵr fod eich trwyn, eich ceg a chefn eich gwddf yn ddideimlad. Bydd modd gwneud hyn naill ai drwy roi chwistrelliad yn eich trwyn neu yn eich ceg, neu drwy garglo. Bydd yr anaesthetegydd yn egluro pa un sydd orau i chi. Bydd yr anaesthetig lleol (sy'n gwneud y man dan sylw'n ddideimlad) yn blasu ychydig yn chwerw, a gallai wneud i chi besychu ychydig. Mae'n bosib y byddwch chi'n sylwi bod eich llais yn gryg a'i bod hi'n anodd llyncu wrth i'r gwddf a'r geg fynd yn ddideimlad.

Unwaith y bydd yr holl fannau'n ddideimlad, bydd yr anaesthetegydd yn gosod naill ai'r broncosgop hyblyg (trwy'r trwyn neu'r geg) neu'r laryngosgop fideo (trwy'r geg) yn ysgafn, er mwyn gweld tannau'r llais, ac yn gosod y tiwb anadlu yn eich pibell wynt (tracea). Mae'n bosib y byddwch chi'n teimlo rhywfaint o bwysau yn eich trwyn os mai dyma'r llwybr sy'n cael ei ddefnyddio, ond am sbel fach yn unig y bydd yr anghysur hwn yn para. Unwaith y bydd lleoliad cywir y tiwb anadlu wedi ei wirio, byddwch chi'n cael y cyffuriau anaesthetig drwy'r canwla a bydd yr anaesthetig cyffredinol yn dechrau gweithio.

MEWNDIWBIO PAN FYDDWCH CHI'N EFFRO: CANLLAW I GLEIFION



Beth i'w ddisgwyl ar ôl [mewndiwbio pan fyddwch chi'n effro](#)?

Gan amlaf, bydd y tiwb anadlu'n cael ei dynnu o'ch pibell wynt ar ddiwedd yr archwiliad cyn i chi ddeffro. Bydd yr anaesthetegydd yn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu anadlu drosoch chi eich hun cyn tynnu'r tiwb anadlu allan, felly mae'n bosib y byddwch chi'n ymwybodol o hyn. Mae'n bosib y bydd eich trwyn a'ch gwddf yn dal i fod yn ddideimlad ac efallai y bydd dolur gwddf ysgafn a llais cryg gyda chi. Bydd yr holl symptomau hyn yn diflannu'n naturiol ar ôl ychydig oriau, a fydd dim angen rhagor o driniaeth ar eu cyfer.

Byddwch chi'n cael cyngor i aros nes bydd y dideimladrwydd yn dod i ben cyn cael unrhyw beth i'w fwyta neu yfed, yn enwedig diodydd poeth neu fwyd poeth iawn.

Beth yw risgiau [mewndiwbio pan fyddwch chi'n effro](#)?

Mae'r holl broses yn ddiogel iawn ar y cyfan, ond mae risgiau a bydd yr anaesthetegydd yn esbonio'r rhain i chi. Mae'n bosib y bydd rhai cleifion yn gwaedu o'r trwyn os ydy'r tiwb anadlu wedi ei osod drwy'r trwyn. Mae risg fach iawn o niwed i'r trwyn neu i'r gwddf yn ystod yr archwiliad. Mae'n bosib bod alergedd gyda rhai cleifion i'r anaesthetig lleol sy'n cael ei ddefnyddio i wneud y geg neu'r trwyn yn ddideimlad. Ar bob cam o'r driniaeth, bydd yr anaesthetegydd a'r tîm meddygol yn eich monitro'n ofalus.

Beth yw rôl *The Difficult Airway Society* (DAS)?

Cymdeithas arbenigol feddygol yw DAS. Ei nod yw gwella arferion diogel o ran y llwybr anadlu ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y mae angen sgiliau o ran y llwybr anadlu arno i ofalu am ei gleifion. Mae DAS yn cymryd rhan fawr mewn hyfforddiant ac yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn â phynciau sy'n ymwneud â rheoli'r llwybr anadlu, gan gynnwys [mewndiwbio yn y tracea pan fydd y claf yn effro](#).

Ar gyfer cleifion: Mae DAS yn cynnal Prosiect y Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu Anodd ([mae mwy o wybodaeth yma](#)). Mae'r prosiect hwn sy'n hybu diogelwch cleifion yn bwysig i unrhyw glaf gyda llwybr anadlu anodd.